# Achub Fi!
# Gweithgareddau Dilynol ar gyfer Athrawon

**Mae'r gweithgareddau dilynol ar gyfer Achub Fi yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 4 o'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru.**

| Achub Fi Gweithgareddau Dilynol | Cysylltiadau â'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru | |
|---|---|---|
| | Sgiliau | Ystod |
| **Gweithgaredd 1. Fy Hunaniaeth**<br><br>Cyflwyniad PowerPoint a Gweithgareddau | • Defnyddio amrediad o dechnegau ar gyfer myfyrio personol.<br><br>• Gwerthfawrogi, myfyrio ar a gwerthuso'n feirniadol safbwyntiau eraill. | • Sut mae cred a gwerthoedd yn effeithio ar hunaniaeth a ffyrdd o fyw personol<br><br>• Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill |
| **Gweithgaredd 2. Achub Fi** | • Cymryd gwahanol bersbectifau i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol.<br><br>• Gwerthfawrogi, myfyrio ar a gwerthuso'n feirniadol safbwyntiau eraill. | • Gwerthfawrogi amrywiaeth a chyfle cyfartal, a bod yn ddig at anghyfiawnder, ecsbloetiaeth a gwrthod hawliau dynol.<br><br>• Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill<br><br>• Sut i herio gyda phendantrwydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | fynegiant o ragfarn, hiliaeth a stereoteipio |
| **Gweithgaredd 3 Beth sy'n fy ngwneud i'n unigryw a beth sy'n fy ngwneud i'n debyg?** | • gwerthuso gwybodaeth a syniadau er mwyn mesur tuedd, dibynadwyedd a dilysrwydd | • dangos parch atynt hwy eu hunain, at bobl eraill ac at amrywiaeth |
| **Gweithgaredd 4 Achosion gwahaniaethu** | • ystyried nifer o safbwyntiau mewn sefyllfaoedd mwy haniaethol, er mwyn llywio barn a phenderfyniadau | • deall y problemau moesol a moesegol sy'n wynebu cymdeithas ac unigolion a myfyrio ynghylch sut y gellid datrys y problemau hyn |
| **Gweithgaredd 5 Delio â Hiliaeth** | | |
| **Gweithgaredd 6 Gwneud ein hysgol yn well lle** | | |


## 1. PowerPoint Fy Hunaniaeth


### 1.a Pwy ydw i ? Gweithgaredd

Dechreuwch drwy ddefnyddio sleidiau 1-4. Defnyddiwch sleid 2 ar gyfer trafodaeth ragarweiniol.

Mewn parau defnyddiwch y daflen weithgaredd (1a) (sleid4) 'Pwy ydw i?'

Gofynnwch i'r disgyblion ddilyn y cyfarwyddyd a roddir ar sleid 3 i gwblhau'r gweithgaredd.




## Lluniwch fap meddwl, gan ddefnyddio'r patrwm ar y sleid flaenorol, i ateb y cwestiynau canlynol:

- O le ydych chi'n dod? (cymuned / teulu)
- Sut un ydych chi?
- Beth ydych chi'n hoffi ei wneud?
- Beth ydych chi'n dda am ei wneud?
- Beth ydych chi'n ei hoffi amdanoch eich hun?

- A yw eich partner yn cytuno gyda'r manylion yr ydych wedi eu rhoi yn eich diagram?

3

## Pwy ydw i?



4


**Gweithgaredd 1b - Person Nodweddiadol yn ei Arddegau …**

1.b. Defnyddiwch sleidiau 5-7. Gofynnwch i'r disgyblion ddilyn y cyfarwyddiadau ar Sleid 5. Darparwch gopi o bob adnodd (1b) i'r disgyblion. 'Rwy'n meddwl fod glaslanc/glaslances nodweddiadol … . . .' yna darllenwch y datganiadau ar Sleid 6 a dilynwch y drafodaeth ar sleid 7. Gorffennwch gan ddynodi bod stereoteipio yn gred bod aelodau o grwpiau penodol yn rhannu'r un nodweddion a'u bod yn ymddwyn yn yr un modd

## Person yn ei arddegau

**Gan weithio'n unigol gorffenwch y datganiad hwn:**

**Rydw i'n meddwl bod person nodweddiadol yn ei arddegau yn …. .**



Ysgrifennwch 2 ddatganiad yr ydych chi'n meddwl sy'n nodweddiadol o berson yn ei arddegau.

5

## Datganiadau am berson nodweddiadol yn ei arddegau:

- Nid yw pobl ifanc yn poeni am eiddo pobl eraill.
- Mae pobl ifanc yn eu harddegau yn treulio llawer o amser yn ymladd mewn giangs.
- Bydd y rhan fwyaf o rai yn eu harddegau yn cario cyllell pan fyddant allan gyda'r hwyr.
- Mae pobl ifanc yn eu harddegau yn meddwl bod ysmygu yn gwneud iddynt edrych yn cŵl.
- Mae pobl ifanc yn eu harddegau yn meddwl na ddylent ymyrryd os gwelant rhywun yn cael ei fwlio.

6

## Trafodaeth am y datganiadau o dan arweiniad athro/athrawes

- Pam ydych chi'n meddwl bod y cyfryngau yn darlunio pobl ifanc yn eu harddegau fel hyn?
- Ydych chi'n meddwl bod y datganiadau hyn yn wir?
- Allwch chi feddwl am **unrhyw grwpiau eraill** all gael eu camgynrychioli yn y cyfryngau?






**Stereoteipio**…yw'r gred bod aelodau o grwpiau penodol yn rhannu'r un nodweddion a'u bod yn ymddwyn yn yr un modd.




**Gweithgaredd 1c - Trafodaeth Gwir/Gau**

Defnyddiwch sleid 9. Rhowch adnodd gwir/gau (1c) i bob disgybl ei gwblhau. Adrodd yn ôl fel dosbarth cyfan i chwalu unrhyw gamsyniadau. Mae sleidiau 10, 11 a 12 yn rhoi'r atebion. Fel sesiwn dosbarth cyfan trafodwch sleid 13.




| | Datganiad | Gwir | Gau |
|---|---|---|---|
| 1 | Mae Prydain yn llawn ffoaduriaid | | |
| 2 | Rydyn ni'n cael ein twyllo | | |
| 3 | Mae ceiswyr lloches yn ddiog | | |
| 4 | Mae ffoaduriaid yma oherwydd y perygl y maent yn ei wynebu yn eu gwlad eu hunain | | |
| 5 | Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cymryd ein cartrefi ni | | |
| 6 | Mae pob ffoadur yn dwyllwr | | |
| 7 | Mae ceiswyr lloches yn mynd â'n swyddi ni | | |
| 8 | Mae ffoaduriaid yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r economi | | |
| 9 | Rydym yn talu mwy o Dreth Gyngor oherwydd ceiswyr lloches | | |



**Myth: Mae ceiswyr lloches yn ddiog**

**Gau -** Mae llawer yn fedrus iawn ac eisiau gweithio ac mae gennym brinder gweithwyr medrus.

**Myth: Mae ffoaduriaid yma oherwydd y perygl y maent yn ei wynebu yn eu gwlad eu hunain**

**Gwir -** Gwir oherwydd mewn rhai gwledydd nid oes gan bobl hawliau dynol a gall eu llywodraeth wneud fel y mynna. Mae ffoadurdiaid wedi bod drwy'r broses ceisio lloches sy'n penderfynu a oes ganddynt resymau da i aros.

**Myth: Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cymryd ein cartrefi ni**

**Gau -** Pan gânt dŷ neu fflat bydd ceiswyr lloches yn cael y rhai sy'n wag neu'r rhai y mae landlordiaid yn cael trafferth i'w gosod.

11

- **Myth: Mae ceiswyr lloches yn mynd â'n swyddi ni**

  **Gau-** Ni chaiff ceiswyr lloches weithio tra eu bod yn mynd trwy'r broses ceisio lloches.

- **Myth: Mae ffoaduriaid yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r economi**

  **Gwir-** Mae gan lawer o ffoaduriaid swyddi ac maent yn talu treth.

- **Myth: Rydym yn talu mwy o Dreth Gyngor oherwydd ceiswyr lloches**

  **Gau** – Y Llywodraeth fydd yn edrych ar ôl ceiswyr lloches, nid cynghorau lleol.

- **Myth: Mae pob ffoadur yn dwyllwr**

  **Gau**- Er fod y Swyddfa Gartref yn llym ar ffoaduriaid yn gwneud cais i aros ym Mhrydain, llynedd, cafodd dros 40% o geiswyr ganiatad i aros oherwydd y perygl y byddent ynddo pe byddent yn mynd adref.

12

**Ystyriwch:**

Mae'r DU yn cynnal canran fechan o ffoaduriaid y byd – **<u>llai na 3%.</u>**

***Amser i benderfynu!***





- **A yw'r trafodaethau wedi effeithio ar y ffordd yr ydych ym meddwl am bobl ifanc yn eu harddegau a cheiswyr lloches / ffoaduriaid?**
- Os ydynt – **sut?**


13

## Gweithgaredd 2 – PPT 'Achub Fi' 'Rwyf am wybod'

- Sleidiau 1-3
- Gan weithio mewn parau, rhowch gopïau o daflen waith 'Achub Fi – rwyf am wybod' (2a) i'r disgyblion
- Disgyblion yn ysgrifennu ymatebion ac yn adrodd yn ôl i'r dosbarth cyfan.






**Gweithgaredd 3 – Beth sy'n fy ngwneud i'n unigryw a beth sy'n fy ngwneud i'n debyg?**

- Sleidiau 4-6
- Gofynnwch i'r disgyblion ateb adnodd (3) Beth sy'n fy ngwneud i'n Unigryw/Debyg?
- Rhoi adborth i'r dosbarth cyfan o ymatebion y disgyblion
- Gwiriwch dealltwriaeth y disgyblion o'r term Rhagfarn gan ddefnyddio sleid 5
- Gofynnwch i'r disgyblion ystyried y gwahaniaethau sy'n gallu arwain at achosion o ragfarn.

# Trafodwch

Mewn parau:

- Beth sy'n gwneud pob un ohonoch yn **unigryw** yn amgylchedd eich dosbarth?
- Beth sy'n **debyg** rhyngoch chi a phobl eraill yn y dosbarth?

ADBORTH




4

# Beth yw Rhagfarn?

**Rhagfarn yw …**


**barn afresymol am berson neu grwp o bersonnau sydd wedi'i ffurfio ymlaen llaw heb unrhyw wybodaeth wirioneddol o'r unigolyn neu'r grŵp.**

5




**<u>Gweithgaredd 4 – Achosion gwahaniaethu</u>**


- Sleid 6
- Rhowch Adnodd 4. Achosion Gwahaniaethu, i'r disgyblion gwblhau
- Trafodwch yr ymatebion fel dosbarth cyfan




| | Ffactorau Dylanwad | Annheb ygol | Eithaf Tebydo | Tebygol Iawn |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Dillad | | | |
| 2 | Rhyw | | | |
| 3 | Lliw gwallt | | | |
| 4 | Cyfeiriadedd rhywiol | | | |
| 5 | Diwylliant | | | |
| 6 | Taldra/pwysau | | | |
| 7 | Trawsrywiol | | | |
| 8 | Anabledd/Teulu | | | |
| 9 | Crefydd | | | |
| 10 | Lliw croen | | | |
| 11 | Gweithio'n galed yn yr ysgol | | | |
| 12 | Gwisgo sbectol | | | |

5. ***Gweithgaredd Cardiau Senario Gwahaniaethu***

- Sleid 9
- Rhowch gopïau o'r daflen waith Cardiau Senario Gwahaniaethu (5a) i bob pâr neu grŵp ac 1 o'r 10 Cardiau Senario Achosion o Wahaniaethu (5b). Yn ychwanegol rhowch y daflen sy'n rhestru achosion posibl o wahaniaethu a elwi'r yn 'Mathau o Wahaniaethu' (5c). Defnyddiwch sleidiau 10-19 pan yn gofyn am adborth wrth y disgyblion ar gyfer pob senario.
- Yn hytrach, gellid defnyddio Cardiau Senario Achosion o Wahaniaethu (5b) gyda'r daflen Achosion o Wahaniaethu (5d)



## 1 Stori Anya and Joe



10

## 2 Stori Stacey



11

## 3 Stori Seren




12

## 4 Stori Jamie



13


5 Stori Kieran
14


6 Stori Tanya
15

## 7 Stori Margo



16

## 8 Stori Gareth



17

## 9 Story Ravi



18

## 10 Stori Kayleigh



19

6. **Gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol**

- Sleidiau 20-22

## Nawr ystyriwch y wybodaeth ganlynol:

**Dangosodd arolwg o bobl ifanc hoyw, lesbiaidd neu deurywiol a gynhaliwyd ym 1996 bod:**

- 48% wedi profi trais treisgar
- 61% wedi dioddef aflonyddu
- 90% wedi cael eu galw'n enwau oherwydd eu rhywioldeb
- 50% o ymosodiadau treisgar yn ymwneud â chyd fyfyrwyr
- 40% o ymosodiadau wedi digwydd yn yr ysgol

Canfuwyd bod 60% o hunanladdiadau disgyblion yn y DU wedi eu cysylltu'n uniongyrchol i fwlio homoffobig.

21


# A gawsoch chi eich synnu gan y manylion hyn?


- **Pleidlais ddosbarth**
- Mewn parau trafodwch pam fod y grwpiau hyn yn debygol o ddioddef bwlio a thrais.
- Trafodwch unrhyw grwpiau eraill a all ddioddef bwlio.

22


## 7. Brwydro yn erbyn Hiliaeth

- Sleidiau 23-24



Sleidiau 25-28 – I bob pâr rhowch dewis o dri o'r Cardiau Senario Hiliaeth (7a) a thaflen waith cerdyn Senario Hiliaeth (7b). Gofynnwch i'r disgyblion drafod y cwestiynau ac ysgrifennu eu hatebion ar y daflen waith. Gofynnwch am adborth gan ddefnyddio sleidiau 25-28.






Mae **Svetlana** yn ferch 15 oed o Rwmania a symudodd i fyw yng Nghymru yn ddiweddar gyda'i theulu. Mae ei thad yn feddyg ac mae ganddo ddisgwyliadau mawr gan ei ferch. Roedd hi'n nerfus iawn ynglŷn â dechrau yn ei hysgol newydd gan fod y pennaeth wedi dweud mai hi oedd y disgybl cyntaf iddynt ei gael o Ddwyrain Ewrop. Gwnaeth ei nerfusrwydd iddi ymddangos fel na bai am fod gyda'r disgyblion eraill. Dechreuodd un ferch si ei bod yn Sipsi, a'i bod yn byw mewn carafan ar dir gwastraff wrth y gamlas lleol. Wedi 5 wythnos nid oes neb yn siarad â hi oni bai i wneud rhyw sylw cas am ei chefndir diwylliannol (yn ôl pob sôn). Mae hi'n pryderu'n fawr am yr ysgol ac mae hyn yn cael effaith ar ei marciau.



Mae **Calvin** yn fachgen 14 oed sydd wedi symud ysgol o fewn Abertawe, lle mae'n byw. Mae ei fam yn wyn a'i dad o darddiad Asiaidd. Yn ddiweddar mae wedi clywed sylwadau amhleserus yn cael eu gwneud am ei dad gan rai o'r bechgyn hŷn yn dilyn noson rieni ddiweddar. Roedd y sylwadau hiliol wedi ei frifo. Ers y noson rieni mae wedi profi sylwadau hiliol amdano, rhai'n ei alw'n derfysgwr. Maent yn gwneud hwyl am ei ben gyda disgyblion eraill sydd, er fod Calvin yn teimlo eu bod yn anghyfforddus gyda hyn, ddim yn ei gefnogi. Mae ei ffrindiau wedi dweud wrtho am eu hanwybyddu. Yn ddiweddar cafodd ei ddilyn adref o'r ysgol gan griw o fechgyn, buont yn aros tu allan i'w dŷ yn gwneud hwyl am ei ben ac am ben ei deulu. Pan ddaeth ei dad allan dywedodd y bechgyn bethau atgas wrtho a rhedeg i ffwrdd. Mae Calvin yn teimlo'n ffwyfwy anhapus ac anniogel yn yr ysgol ac yn ei gymuned.

Yn ddiweddar mae wedi derbyn negesuon testun câs ac mae sylwadau anfoesgar wedi cael eu postio ar ei dudalen Facebook. Roedd rhai o'r negeseuon yn fygythiol eu natur. Bellach mae Calvin wedi bod yn teimlo'n anhapus ac anniogel tra yn yr ysgol ac yn ei gymuned.



8. **<u>Datrysiad ysgol gyfan i'r broblem - Beth all ysgolion eu gwneud i leihau achosion o hiliaeth?</u>**

Gan weithio mewn grwpiau bach, darparwch darn mawr o bapur i'r disgyblion a gofynnwch iddynt fapio beth all ysgolion wneud i leihau achosion o hiliaeth.

Gall y dull yma gynorthwyo gyda datrys problemau o ragfarn a gwahaniaethu ar sail; rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd a.y.b.

Arddangoswch y mapiau a gofynnwch i bob grŵp am adborth. Nodwch y gwahaniaethau a'r tebygolrwydd yn y syniadau a'r dulliau.

